# TGAU CYNLLUN MARCIO

**HAF 2016**

**CYMRAEG – HAEN UWCH**
**4531/02**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2016. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

## HAEN UWCH

### ADRAN A

**1.** (i) Un marc am nodi:
- Chubut [1]

(ii) Un marc yr un hyd at ddau farc am nodi:
- Y Gaiman
- Esquel [2]

(iii) Un marc yr un hyd at ddau farc am nodi:
- 19%
- 54% [2]

**Cyfanswm marciau cwestiwn 1 = 5 marc**



© WJEC CBAC Cyf.

**2.** 1 marc am bob ffaith hyd at **13 marc**

Disgwylir ffeithiau o'r darnau yn unig, a disgwylir rhai ffeithiau o'r **tair adran** yn y cwestiwn, ond ni nodir marciau penodol i bob adran.
Rhaid cyfeirio at bob adran. Dim ond unwaith y dylid gwobrwyo ffeithiau y medrir eu clustnodi i fwy nag un adran.
Os atebir ar un adran yn unig – cyfanswm o 11 marc yn unig.
Os atebir ar ddwy adran yn unig – cyfanswm o 12 marc yn unig.

| | **Darn darllen 1: PATAGONIA** | **Darn darllen 2: Plentyndod ym Mhatagonia** |
|---|---|---|
| Ffeithiau am Batagonia<br><br>**1 marc**<br>**✓ f** | • Yn Ne America<br>• (Rhan o) Batagonia yn yr Ariannin<br>• Rhan orllewinol yn Chile<br>• Y Gaiman ac Esquel – dwy o drefi'r Wladfa<br>• Porth Madryn a Rawson - dau o borthladdoedd y Wladfa<br>• Y Wladfa yn (nhalaith) Chubut<br>• Mynyddoedd yr Andes yn y gorllewin<br>• Tua 150,000 yn byw yno heddiw<br>• Tua 5,000 o bobl yn siarad Cymraeg (+cannoedd yn dysgu'r iaith) | • Trevelin/yr Andes<br>• Y paith - gwlad sych..../tymheredd – sôn am oerni a gwres<br>• Cwm Hyfryd<br>• Anifeiliaid y paith - e.e. armadilo, gwanaco, estrys (rhaid enghreifftio)<br>• Gorsedd  y Cwmwl - y mynydd sydd yn gefn urddasol i Gwm Hyfryd<br>• Ceffylau dof, cyfeillgar<br>• Defaid gwlanog<br>• Llosgfynydd (Chaiten) yn ffrwydro ym mis Mai 2008<br>• Dyfrio'r tir (yn y llun) |
| Hanes y Cymry yn mynd i'r wlad a sefydlu'r Wladfa<br><br>**1 marc**<br>**✓ h** | • Creu'r Wladfa yn nhalaith Chubut<br>• Symud yn nes at yr Andes<br>• 150 mlynedd ers i'r Cymry fynd i Batagonia<br>• 1865 - sefydlu'r Wladfa/mynd i'r Wladfa<br>• 153 o ddynion, merched a phlant wedi hwylio o Gymru ar long y Mimosa<br>• Ceisio bywyd newydd<br>• Hwylio o ddociau Lerpwl<br>• Hwylio ar long y Mimosa | • Enwau Cymraeg ar lefydd - rhaid cael un enghraifft<br>• Cyfeirio at Gymru fel yr Hen Wlad |
| Patagonia  o 1865 hyd heddiw<br><br>**1 marc**<br>**✓ p** | • Dathlu yn 2015/dathlu 150 mlynedd<br>• Pob math o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal gan e.e. cwmnïau drama, darlledwyr, cymdeithasau, grwpiau celfyddydol<br>• Cofeb yn nociau Lerpwl i ddathlu<br>• Tua 150,000 yn byw yno heddiw<br>• Tua 5,000 o bobl yn siarad Cymraeg (+cannoedd yn dysgu'r iaith)<br>• Cynnydd yn y siaradwyr Cymraeg ers llynedd/cynnydd o 19% yn astudio cyrsiau Cymraeg a 54% yn nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg/mynd o nerth i nerth<br>• Gwaith caled pawb fu'n ymwneud â phrosiect Cyngor Prydeinig Cymru (yng Nghymru a Phatagonia)<br>• (Erbyn 2016) dylai fod 3 ysgol (gynradd) ddwyieithog | • Mynd i'r ysgol ar gefn ceffyl<br>• Treulio amser ar y paith<br>• Bwyta cig yr armadilo/wy'r estrys<br>• Kyffin Williams yn tynnu nifer o luniau o Batagonia<br>• Kyffin Williams yn aros yn Tŷ Ni/Trevelin<br>• Magu defaid<br>• Teithio'r paith/teithio mewn Jeep/teithio wyth awr<br>• Storio bwyd e.e. afalau<br>• Cyfeiriad at luniau Kyffin Williams e.e. Gorsedd y Cwmwl/Cwm Hyfryd neu'r tri llun ar waelod y dudalen |

Ymwybyddiaeth o ffurf deialog: 2 farc

**Cyfanswm marciau cwestiwn 2: 15**



© WJEC CBAC Cyf.

**3.** Rhoddir **2 farc** am bob pwynt – **½ marc** am enwi nodwedd a **1½ marc** am effeithiolrwydd neu bwrpas gan gynnwys dyfynnu neu enghreifftio pwrpasol – hyd at **16**.

Enwi nodwedd (½ marc) + enghreifftio neu ddyfynnu (neu gyfeirio'n benodol at y nodwedd yn y darn darllen os nad oes modd dyfynnu) (½ marc) + rhesymu neu drafod effeithiolrwydd (1 marc).

| **Darn Darllen 1 – PATAGONIA** | **Darn Darllen 2 – Plentyndod ym Mhatagonia** |
|---|---|
| **(4 x 2 = 8) p**<br><br>**bwriad yr awdur**<br>• cyflwyno gwybodaeth am Batagonia a sefydlu'r Wladfa.<br>• cyflwyno gwybodaeth am yr iaith Gymraeg ym Mhatagonia<br>• cyflwyno gwybodadeth i rywun sydd am ymweld â'r lle<br><br>**pwy yw'r darllenwyr**<br>• darllenwyr gwefan Patagonia<br>• darllenwyr golwg 360<br>• pobl sydd â diddordeb yn hanes Patagonia/y Wladfa/iaith Gymraeg ym Mhatagonia<br>*(egluro sut rydym yn gwybod hyn – enghreifftio/dyfynnu)*<br><br>**y math o iaith**<br>• ffurfiol/safonol ac uniongyrchol yn y ffeil ffeithiau *(addas ar gyfer cyflwyno ffeithiau'n syml a chlir; nid oes ansoddeiriau yma dim ond yr hyn oedd wedi digwydd)*<br>• safonol/llafar yn y blwch glas *(rhoi ei farn, mwy personol)*<br><br>**nodweddion arddull**<br>• **ffurf:** nifer o ddarnau - pytiau o wybodaeth - rhestr o ffeithiau, map, darn o adroddiad/ erthygl, sêr, logo *(amrywiol – addas ar gyfer cyflwyno gwybodaeth mewn ffordd uniongyrchol a deniadol - gallai fod yn daflen wybodaeth)*<br>• **berfau amser gorffennol** e.e. berfau gorffennol 3ydd person (ymsefydlodd, symudodd) *(addas i gyflwyno hanes yr hyn a ddigwyddodd)*<br>• **berfau presennol** e.e. mae... (*sôn am heddiw)*<br>• **berfau amhersonol** e.e. dathlwyd *(ffurfiol, cryno)*<br>• **cwestiwn** e.e. Ble mae Patagonia? *(annog y darllenwyr i ddarllen ymlaen a chael y ffeithiau)*<br>• **nodi blynyddoedd** e.e. 1865, 2015, 2016 *(hanesyddol, ffeithiol)*<br>• **enwi llefydd** e.e. Patagonia, y Wladfa, Chubut, De America, Chile, Ariannin, Gaiman, Esquel, Andes, Cymru, Lerpwl, Porth Madryn, Rawson *(rhoi gwybodaeth am y wlad, enwi llefydd penodol – lleoli)*<br>• **enw/teitl** e.e. PATAGONIA, Cyngor | ***(4 x 2 = 8) m***<br><br>***bwriad yr awdur***<br>• *cyflwyno/adrodd hanes ei phlentyndod ym Mhatagonia/ hunangofiant/cystadlu*<br><br>***pwy yw'r darllenwyr***<br>• *darllenwyr/beirniaid y gystadleuaeth yn Eisteddfod Glyn Ebwy*<br>• *darllenwyr y wefan*<br>• *pobl sydd â diddordeb yn hanes Patagonia/y Wladfa*<br>*(egluro sut rydym yn gwybod hyn – enghreifftio/ dyfynnu*<br><br>***y math o iaith***<br>• *iaith safonol naturiol yr awdures/iaith anffurfiol + ffurfiau llafar ar adegau (Cymreig, adlewyrchu'r cyfnod a'r awdures, iaith addas ar gyfer naratif ac atgofion)*<br><br>***nodweddion arddull***<br>• ***ffurf:*** *naratif, dwyn i gof, erthygl, hunangofiant, atgofion (addas ar gyfer atgofion personol)*<br>• ***berfau amser gorffennol*** *e.e. ces, cofiaf, byddem, daeth (addas i gyflwyno hanes yr hyn ddigwyddodd/arfer digwydd)*<br>• ***berfenwau*** *e.e. ffrwydro, blasu, casglu*<br>• ***cwestiwn*** *e.e. Beth yw'r atgof cyntaf? (arwain ni at ei hatgofion)*<br>• ***nodi blynyddoedd/dyddiadau*** *e.e. 1968, Mai 2008; ...mis Mehefin (pryd digwyddodd hyn; hefyd 2010 – dyddiad y gwaith ar frig y dudalen a dyddiad Eisteddfod Glyn Ebwy. Rhoi amser penodol.)*<br>• ***enwi llefydd*** *e.e. Patagonia, Trevelin, Glyn Ebwy, Andes, Primavera (y fferm), Cwm Hyfryd, Troed yr Orsedd (fferm), Llandre, Garthenor, Ysgol Uwchradd Tregaron, Ariannin, Tŷ Ni, Chile, Gorsedd y Cwmwl - y mynydd), Rhyd yr Indiaid; y llosgfynydd Chaiten (enwi llawer o lefydd ym Mhatagonia a rhai yng Nghymru – hyn yn rhoi argraff gartrefol, adnabod yr ardal ayyb)*<br>• ***teitlau*** *e.e. Hen Wlad, enwau'r ffermydd, enwau'r mynydd, enwau lluniau Kyffin Williams*<br>• ***enwau pobl*** *e.e. Mary Green de Borda (yr awdures), Syr Kyffin Williams (yr arlunydd),* |



© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| Prydeinig Cymru, Mimosa, Y Wladfa *(gwybodaeth benodol am y prosiect, dibynadwy)*<br>• **enwau pobl** e.e. Gareth Kiff<br>• **niferoedd/ystadegau** e.e. 150,000, 5,000, 150,153, canrannau 19%, 54% *(gwybodaeth benodol, gwir, dibynadwy)*<br>• **rhestru** e.e. cwmnïau drama cenedlaethol, darlledwyr, cymdeithasau a grwpiau celfyddydol; Porth Madryn a Rawson; dynion, merched a phlant *(pwysleisio'r nifer ayyb)*<br>• **dywediadau/idiomau** e.e. mynd o nerth i nerth *(ffordd o ddisgrifio'r cynnydd)*<br>• **ansoddeiriau** i greu effaith: e.e. newydd, caled *(ychydig sydd yma oherwydd mai ffeithiol ac uniongyrchol yw'r darn yn arbennig yn y rhan gyntaf)*<br><br>**y cyflwyniad**<br>• **teitl y darn darllen** – PATAGONIA *(rhoi gwybod beth yw teitl y dudalen, gwybodaeth y wlad...)*<br>• **isbenawdau -** Ble mae Patagonia? Beth wyddoch chi am Batagonia? Yr iaith Gymraeg yn ffynnu ym Mhatagonia, *(rhannu'r wybodaeth yn isadrannau, tynnu sylw at wybodaeth benodol)*<br>• **cefndir lliw -** melyn i'r ffeil ffeithiau, glas i'r sêr, glastywyll a golau i'r logo *(tynnu sylw at rannau penodol, gwneud y dudalen yn apelgar a lliwgar)*<br>• **lluniau –** llun lliw o athrawes a dau blentyn (*cyd-fynd â'r darn am yr adroddiad - dangos plant gyda'u hathrawes yn dysgu Cymraeg)*<br>• **logo -** Patagonia 150; golwg 360 (*dangos y ffynonellau – rhai gwir)*<br>• **map -** yn dangos ble mae Patagonia *(help i wybod ble mae'r wlad a pha wledydd eraill sydd yn agos)*<br>• **blychau** – o amgylch y map, o amgylch y darn o adroddiad /erthygl am yr iaith, o amgylch y ffeithiau am sefydlu'r Wladfa a chofio *(cymorth i dynnu sylw at isadrannau; gosod yn daclus)*<br>• **sêr/swigod**: 3 yn nodi ble mae Patagonia *(ffordd syml a deniadol o gyflwyno ffeithiau byr)*<br>• **print trwm/trwchus** – y cwestiwn - Ble mae Patagonia? a'r isbenawdau - Sefydlu'r Wladfa ym Mhatagonia, Yr iaith Gymraeg yn ffynnu ym Matagonia *(cymorth i dynnu sylw at isadrannau a phwysleisio)*<br>• **print trwm/trwchus –** y cwestiwn – Ble mae'r Patagonia? a'r isbenawdau – Yr iaith Gymraeg yn ffynnu ym Mhatagonia *(cymorth i dynnu sylw a phwysleisio)*<br>• **prif lythrennau -** teitl PATAGONIA *(gwneud y teitl yn amlwg – teitl y darn darllen cyfan)*<br>• **defnydd o liw** – lluniau, cefndir melyn a glas, print glas, map, amlinell las i ddau flwch *(lliwiau yn gwneud darn darllen yn apelgar, tynnu sylw at rannau arbennig ayyb)*<br>• **pwyntiau bwled -** y rhestr ffeithiau | *(rhoi gwybod pwy yw'r awdures a'r arlunydd - cysylltiad rhwng Cymru a Phatagonia.)*<br>• ***enwau'r creaduriaid:*** *gwanaco ac armadilo (diddorol gweld pa anifeiliaid sydd yno - gwahanol i Gymru - gweld eu lluniau hefyd.)*<br>• ***rhestru*** *e.e. estrys a gwanaco; Caiman, Lobuno, Petiso, a Morocha; cyson, eang, agored; cegin, pantri, cegin orau; adar a choed (pwysleisio'r nifer ayyb)*<br>• ***dywediadau/idiomau*** *e.e. drwy dwnnel amser; wrth droed.. (ffordd ddiddorol o ddisgrifio)*<br>• ***ansoddeiriau*** *e.e. oer, hir, gwag, urddasol, sych, cyson, eang, agored; anferth, enwog, gwlanog (nifer o ansoddeiriau'n cael eu defnyddio i ddisgrifio...)*<br>• ***ebychnod*** *e.e. Rhaid fy mod....yn ffitio i hwnna!; ...dyn mor enwog! (hiwmor)*<br>• ***hiwmor:*** *rhaid fy mod i'n fach ....yn ffitio yn hwnna! (wrth feddwl amdani'i hun)*<br>• ***personoli*** *e.e. haul a'r gwynt yn gwmni cyson, mynydd sy'n gefn urddasol*<br>• ***trosiad*** *e.e. trwy dwnnel amser*<br><br>***y cyflwyniad***<br>• ***tair colofn:*** *rhan gyntaf y darn (trefnus, fel mewn erthygl neu adroddiad)*<br>• ***paragraffau byrion:*** *y paragraffau canol (rhannu'r wybodaeth dan isbenawdau – trefn)*<br>• ***enw'r awdures:*** *yn y cyflwyniad ar y dechrau*<br>• ***teitl*** *yr erthygl/hanes – Plentyndod ym Mhatagonia (gwybodaeth am gynnwys y darn)*<br>• ***cefndir lliw (piws)*** *i'r darn cyfan (lliw yn gwneud y dudalen yn fwy deniadol ... dim arwyddocâd arbennig i'r lliw)*<br>• ***lluniau –*** *dau lun o greaduriaid y paith; 3 llun gan Kyffin Williams (lluniau'n rhoi mwy o wybodaeth i'r darllenydd am y cynnwys ac yn gwneud y gwaith yn ddeniadol, lliwgar a diddorol)*<br>• ***logo golwg 360*** *(dangos y ffynhonnell)*<br>• ***print trwm*** *– teitl yr erthygl a'r isbenawdau, enw Kyffin Williams (cymorth i dynnu sylw a phwysleisio)*<br>• ***isbenawdau*** *– Y Paith, Croesi'r Iwerydd* |



© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| *(uniongyrchol a chlir – ffeithiau syml)*<br>• **ffynhonnell**: golwg 360 a Parotpiws *(gwybod beth yw'r ffynhonnell; gwir)*<br>• **dolen/linc (ffynhonnell):** parotpiws.com/Patagonia/atebol *(gwybod beth yw'r ffynhonnell; gwir; defnydd o wybodaeth o'r we)*<br>• **logo** - Patagonia 150/Golwg 360<br>• **tanlinellu** - rhannau o'r wybodaeth yn y blwch melyn *(tynnu sylw at rai ffeithiau penodol)*<br>• **elipsau:** heddiw...cofio... | |

Dyfernir **4 marc** am ansawdd cyffredinol y drafodaeth yn cynnwys mynegi barn a thrafod y ddau ddarn ar y cyd (e.e. rhesymau pam mae un o'r darnau/ffurfiau yn fwy effeithiol na'r llall).

**Ansawdd y drafodaeth (mynegi barn a thrafod y ddau ddarn ar y cyd)** (hyd at **4 marc** ar draws y ddau ddarn)
**4 marc** – mynegi barn a chyd-drafod yn <u>aeddfed</u>
**3 marc** – mynegi barn a chyd-drafod yn <u>dda</u>
**2 farc** – mynegi barn a chyd-drafod yn <u>eithaf da</u>
**1 marc** – mynegi barn a chyd-drafod yn <u>fras</u>

**Cyfanswm marciau cwestiwn 3 = 20 marc**

**Dyfarnu marciau cwestiwn 3:**

**Rhoddir 2 farc am bob pwynt:**

- **½ marc am enwi nodwedd. Rhaid dyfynnu neu enghreifftio'n glir a phenodol er mwyn ennill y marc enwi nodwedd.**
- **O fewn 1 ½ marc – ½ marc am ddyfynnu/enghreifftio (yn benodol o'r darnau darllen) ac yna hyd at 1 marc am drafod effeithiolrwydd neu bwrpas neu resymu. Rhaid gwneud hynny'n fanwl a threiddgar i gael y marc llawn.**
- **Wrth sôn am fwriad yr awdur/pwy yw'r darllenwyr, oherwydd ei bod yn anodd enghreifftio neu ddyfynnu rhoddir hyd at 1 ½ marc am fanylu ac am esbonio'r pwrpas.**



© WJEC CBAC Cyf.

**Iaith a Mynegiant Adran A = 10 marc**
**Marciau yn ôl y disgrifiadau canlynol.**

| **IAITH A MYNEGIANT**<br>**10** | **Marc**<br>**10** |
|---|---|
| • iaith gyfoethog a chyhyrog<br>• defnyddio ystod eang o gystrawennau<br>• gafael sicr iawn ar sillafu, treigladau, atalnodi a pharagraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eang yn hyderus<br>• defnydd hyderus ac effeithiol o ffurf | 9-10 |
| • iaith gyfoethog<br>• defnyddio ystod lawn o gystrawennau<br>• arddangos gafael gadarn ar sillafu, treigladau, atalnodi a pharagraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eang<br>• defnydd hyderus o ffurf | 7-8 |
| • adnoddau iaith da<br>• defnyddio ystod dda o gystrawennau<br>• gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eithaf eang<br>• dealltwriaeth dda o ffurf | 6 |
| • adnoddau iaith pur dda<br>• arddangos gafael dda ar gystrawen<br>• arddangos gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael dda ar eirfa<br>• adnabyddiaeth eithaf da o ffurf | 4-5 |
| • adnoddau iaith lled foddhaol<br>• gafael weddol dda ar gystrawen<br>• gafael weddol dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael eithaf da ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf | 2-3 |
| • peth gafael ar gystrawen<br>• dangos y gallu i sillafu, treiglo, atalnodi a pharagraffu<br>• defnyddio rhai terfyniadau berfau'n gywir<br>• arddangos peth gafael ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth fras o ffurf | 0-1 |

**Cyfanswm marciau Adran A = 50 (cynnwys: 40 + Iaith a Mynegiant:10)**


© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B**

**4.** Gweler y disgrifiadau canlynol ar gyfer asesu Cynnwys ac Iaith a Mynegiant

Ffurf cwbl anghywir: **haneru marc Iaith a Mynegiant**
Camddehongli'r testun: **haneru marc y cynnwys**
Darn byr - ½ i ¾ tudalen – ddim yn waith cyflawn o ran y cynnwys **(gweler y disgrifiadau isod).**

***Marciau yn ôl y disgrifiadau canlynol:***

| **Cyfanswm Marciau** | **Marc 20** | **CREADIGOL 20** | **FFEITHIOL/ PERSWADIOL 20** | **IAITH A MYNEGIANT 20** |
|---|---|---|---|---|
| 36-40 | 18-20 | • cyfanwaith creadigol aeddfed a threiddgar<br>• arddull afaelgar<br>• adeiladwaith sicr | • cyflwyno gwybodaeth yn gyflawn<br>• cyflwyno ffeithiau perthnasol yn gryno a chrefftus<br>• ehangu a datblygu pwyntiau wrth berswadio<br>• cyfanwaith cydlynus<br>• arddull effeithiol iawn ac addas i'r pwrpas | • iaith gyfoethog a chyhyrog<br>• defnyddio ystod eang o gystrawennau<br>• gafael sicr iawn ar sillafu, treigladau, atalnodi a pharagraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eang yn hyderus<br>• defnydd hyderus ac effeithiol o ffurf |
| 28-35 | 14 -17 | • gwaith â dyfnder iddo<br>• arddull aeddfed<br>• adeiladwaith sicr | • cyflwyno gwybodaeth fanwl<br>• cyflwyno ffeithiau perthnasol yn effeithiol a chryno<br>• dangos y gallu i ehangu a datblygu pwyntiau wrth berswadio<br>• gwaith cydlynus<br>• arddull effeithiol ac addas i'r pwrpas | • iaith gyfoethog<br>• defnyddio ystod lawn o gystrawennau<br>• arddangos gafael gadarn ar sillafu, treigladau, atalnodi a pharagraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eang<br>• defnydd hyderus o ffurf |
| 22-27 | 11 -13 | • gwaith ag apêl iddo<br>• arddull ddifyr<br>• gwaith trefnus | • cyflwyno gwybodaeth briodol yn eithaf manwl<br>• cyflwyno ffeithiau perthnasol<br>• dangos y gallu i ddatblygu pwyntiau wrth berswadio<br>• gwaith trefnus<br>• arddull dda ac addas i'r pwrpas | • adnoddau iaith da<br>• defnyddio ystod dda o gystrawennau<br>• gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eithaf eang<br>• dealltwriaeth dda o ffurf |
| 14-21 | 7-10 | • gwaith eithaf diddorol<br>• ymwybyddiaeth o rai elfennau i greu effaith<br>• gwaith pur drefnus | • cyflwyno gwybodaeth berthnasol a digonol<br>• datblygu rhai pwyntiau wrth berswadio<br>• gwaith pur drefnus<br>• cyflwyno'r wybodaeth yn eglur ac addas i'r pwrpas | • adnoddau iaith pur dda<br>• arddangos gafael dda ar gystrawen<br>• arddangos gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael dda ar eirfa |



© WJEC CBAC Cyf.

| Cyfanswm Marciau | Marc 20 | CREADIGOL 20 | FFEITHIOL/ PERSWADIOL 20 | IAITH A MYNEGIANT 20 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | • adnabyddiaeth eithaf da o ffurf |
| 8-13 | 4-6 | • gwaith ag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• peth ymdrech i ddefnyddio arddull ddiddorol<br>• ymdrech at fod yn drefnus | • cyflwyno ffeithiau digonol<br>• dangos peth ymdrech i ddatblygu pwyntiau wrth berswadio<br>• ymdrech i fod yn drefnus<br>• ymdrech i gyflwyno'r wybodaeth yn eglur | • adnoddau iaith lled foddhaol<br>• gafael weddol dda ar gystrawen<br>• gafael weddol dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael eithaf da ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf |
| 0-7 | 0-3 | • ymdrech at waith diddorol<br>• ymdrech at waith cyflawn | • cyflwyno peth gwybodaeth<br>• peth ymdrech i berswadio<br>• ymgais at waith cyflawn ac i gyflwyno'n eglur | • peth gafael ar gystrawen<br>• dangos y gallu i sillafu, treiglo, atalnodi a pharagraffu<br>• defnyddio rhai terfyniadau berfau'n gywir<br>• arddangos peth gafael ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth fras o ffurf |

**Cyfanswm marciau cwestiwn 4 = 40 marc (Cynnwys: 20 + Iaith: 20)**



© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN C**

**5.** **Defnyddio iaith**
Rhoddir 1 marc am bob cywiriad – ½ **marc** am adnabod gwall a ½ **marc** am gywiro'r gwall.

**patagonia > Patagonia**

– wedi ei gywiro fel enghraifft yn unig.

**Patagonia**

Ydych chi wedi cael digon ar amodau gwael bywyd yng Nghymru?

Dewch ar daith i'r paith; dewch i Batagonia.

O dan arweiniad y Parchedig Michael D. Jones, bydd criw o Gymry mentrus yn heidio i Batagonia er mwyn diogelu'r Gymraeg. Gallwn eich sicrhau y bydd gwaith i bawb ohonoch chi a digon o dir i'w ffermio.

Bydd llong y Mimosa yn gadael ar Ebrill 25ain.
Pris y daith fydd £12 i oedolion a £6 i blant (ond caiff dau blentyn deithio am bris un).

**Cyfanswm marciau cwestiwn 5 = 10**

**Gwallau:**

1. treiglad trwynol/angen h **(Ng>Nghymru)**
2. treiglad meddal p>b **(Patagonia>Batagonia)**
3. amser anghywir y ferf - **(bu>bydd)**
4. sillafu - cymysgu y ac u **(mentrys>mentrus)**
5. collnod **(diogelu'r)**
6. rhagenw unigol/lluosog **(dy>eich)**
7. ffurf yr arddodiad o **(o>ohonoch)**
8. ffurf anghywir y gair **(yw>i'w) (yw>i – ½ marc adnabod y gwall)**
9. trefnolion **(25fed>ain /pumed ar hugain)**
10. benywaidd/gwrywaidd y rhifolyn dau **(dwy>dau)**

Rhaid i'r sillafiad a'r prif lythrennau fod yn gywir yn yr ateb.



© WJEC CBAC Cyf.